# CYNGOR

## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 22 IONAWR 2019 AM 5.00PM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M.Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, A. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Ms E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes), R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), N. Scammell (Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol) and E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Ac:-

Ms S. Chapman (Dirprwy Brif Swyddog Tân, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru) Dr T. Peppin (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

**TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

**MUNUD O DAWELWCH**

Fel arwydd o barch, safodd y Cyngor am funud o dawelwch i Mr Steffan Lewis (AC), Mr Martin Beynon, Mr B. Horsman, Mr J. Humphries ac i'r Cynghorydd Brenda Miles y bu farw ei mhâm hefyd yn ddiweddar.

Talodd y Cyng. C.P. Mann deyrnged i Steffan Lewis AC, a gollodd ei frwydr yn ddiweddar â chanser y coluddyn ac a fu farw yn 34 oed. Nodwyd y parch uchel oedd i Steffan ar draws y sbectrwm gwleidyddol fel cydnabyddiaeth o'r modd y wynebodd ei yrfa a'i salwch. Bu'n parhau i weithio yn ei etholaeth a mynychu'r Cynulliad a chodi ymwybyddiaeth o ganser y coluddyn tan ddiwedd ei fywyd. Mae'r trychineb o golli un mor ifanc wedi ei deimlo'n ddwfn gan bawb a oedd yn ei adnabod ac yn gweithio gyda Steffan ac mae pob cydymdeimlad nawr gyda'i wraig a'i fab ifanc ac i bawb sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.

Mynegodd y Cyng. L. Whittle ei gydymdeimlad dwysaf i bawb a oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar ac wrth dalu teyrnged i Steffan fu'n dwyn ei flynyddoedd cynnar i gof wrth gofio amdano'n rhoi ei araith gyntaf yn 14 oed yng Nghynhadledd Plaid Cymru a hefyd yn masgot ar gyfer Tîm Rygbi Cymru. Soniodd am ba mor ddiolchgar oedd Steffan am y nifer o deyrngedau a dderbyniodd yn ystod ei salwch a pha mor ostyngedig y teimlai o weld y modd yr oedd pobl wedi dod at ei gilydd i'w helpu a'i gefnogi. Ymladdodd frwydr ddewr hyd y diwedd. Dymunodd y Cyng. Whittle iddo orffwys yn awr mewn 'hedd, perffaith hedd'.

Ychwanegodd y Cyng. G. Johnson ei gydymdeimlad at y rhai a fynegwyd eisoes ar ran pobl Trecelyn, a chydnabod y gwaith a wnaed gan Steffan mewn perthynas â chael gwared â thollau Pont Hafren ac roedd yn galondid i wybod bod yr Aelod Cynulliad wedi gallu gweld hyn yn cael ei gwblhau cyn iddo farw.

Diolchodd y Cyng. M. Davies, a fu'n gweithio'n agos gyda Steffan, i'r Aelodau am eu teyrngedau.

Talodd y Cyng. J. Taylor deyrnged i Mr Jack Humphries a oedd, yn ei farn ef, yn wirioneddol ymgorffori gwir ystyr moesegol y gwasanaeth cyhoeddus. Cyfeiriodd at y gwaith a ymgymerodd Jack fel Clerc i Gyngor Cymuned Cwm Aber lle bu wastad yn mynd y cam ychwanegol dros y gymuned. Yn dilyn ei amser fel Clerc, bu Jack yn ymwneud ag amryw o grwpiau gwirfoddol, yn bennaf Grŵp Treftadaeth Cwm Aber, ac roedd ei ymdrechion diflino ar gyfer Gardd Goffa Glowyr Senghenydd yn fesur o'i ymrwymiad i Gwm Aber. Ar ran pawb bu'n gweithio â, ac a oedd yn adnabod Jack, fe fynegodd dristwch am ei farwolaeth ac fe ddanfonodd ei gydymdeimlad diffuant i'w deulu a'i ffrindiau.

## 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs C. Forehead, D. Havard, M. James, Mrs. D. Price, Mrs M.E. Sargent a W. Williams.

## 2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf a chyfeiriodd yn benodol at Sioe Gerddoriaeth Caerffili yn ystod mis Rhagfyr, a dathliad Pen-blwydd Priodas Platinwm y bu'n bresennol ynddo'n ddiweddar. Cyfeiriodd at ymrwymiadau a dyletswyddau'r Maer sydd i ddod dros yr wythnosau nesaf a llongyfarchodd ef y cyn-Gynghorydd, Mr Leon Gardiner y dyfarnwyd Medal Ymerodraeth Prydain iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

## 3. DERBYN DEISEBAU DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Cyflwynodd y Cyng. K. Etheridge ddeiseb ar ran rieni derbyn yn Ysgol Gynradd Coed Duon, am resymau iechyd a diogelwch, ynghylch gollwng plant derbyn a'u brodyr a chwiorydd wrth y gât ochr ger y maes parcio prysur oddi ar Ffordd Apollo yn ystod y bore.

Cyflwynodd y Cyng. L. Binding ddeiseb a alwodd ar Gyngor Caerffili i beidio â thorri unrhyw arian pellach ym Mharc Chwarae Dŵr Cwm Aber a allai arwain at ei gau bosib os na ellir dod o hyd i arian amgen.

Cyflwynodd y Cyng. K. Dawson ddeiseb a oedd yn galw am weithredu brys mewn perthynas â pharcio oddi ar y ffordd ar Heol Trem Deg, Coed Duon.

## 4. CYFLWYNO GWOBRAU

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi derbyn y Wobr Arian, Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, i gydnabod eu cefnogaeth a'u hymrwymiad tuag at y cymunedau Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog. Roedd mynd y tu hwnt i Addewid Cyfamod y Lluoedd Arfog, roedd Caerffili wedi dangos ymagwedd weithredol tuag at gyflogaeth Cymuned y Lluoedd Arfog trwy bolisïau a gweithdrefnau AD sefydledig. Caerffili oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ddarparu sesiynau nofio am ddim i aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr y Lluoedd Arfog, ac mae'r Cyngor hefyd wedi ymuno ag ymgyrch 'Count Me In' y Lleng Brydeinig Frenhinol ac mae'n cefnogi dathliadau ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Croesawodd y Maer y Cyrnol Tim Davies MBE a Chapten Huw Williams (y Fyddin) a'r Gwarant Swyddog Steve Perham, Swyddog Hedfan Jason Fretwell a'r Peilot Swyddog Joshua Boulton (Llu Awyr Brenhinol) a Mrs Audrey Nealon o'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn a gyflwynodd y wobr.

## 5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr T.D. Davies, C. Elsbury ac A. Hussey fuddiant personol yn eitem agenda rhif 12 a chadarnhawyd felly y byddent yn aros yn y Siambr ac yn cadw'r hawl i siarad pe bai angen ond na fyddant yn cymryd rhan yn y bleidlais. Datganodd y Cyng. G. Johnson fuddiant personol yn eitem agenda rhif 11. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitemau perthnasol.

Gofynnodd y Cyng. D. V. Poole a Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) am gyngor ynglŷn ag eitem agenda rhif. 9 gan fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyfrifoldebau gael eu dirprwyo iddynt i gymeradwyo gwariant ar y cyd o gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd angen datganiad.

Gofynnodd y Cyng. S. Skiven am gyngor ynglŷn ag eitem agenda rhif 12 gan ei fod yn Aelod o Gymdeithas y Swyddogion Tân. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw fuddiant i'w ddatgan yn yr achos hwn, fodd bynnag, pe byddai'n dymuno datgan, byddai'n fuddiant personol yn unig.

## 6. CYNGOR - 13 RHAGFYR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018 (cofnodion rhif 1-17)

## 7. I DDERBYN AC I ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10 (2).

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi'u derbyn.

## 8. YMATEB CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI I'R PAPUR GWYN: DIWYGIO AWDURDODAU TÂN AC ACHUB

Gyda chymeradwyaeth y Maer daethpwyd â'r eitem hon ymlaen ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorwyr D. T. Davies, C. Elsbury ac A. Hussey fuddiant personol fel Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru er mwyn iddynt allu aros yn y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Datganodd y Cyng. S. Skivens fuddiant personol fel Aelod o Gymdeithas y Swyddogion Tân.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn nodi ymateb arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Lywodraeth Cymru "Diwygio'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru - Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru."

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Papur Gwyn yn nodi achos Llywodraeth Cymru dros newid ac i foderneiddio Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau). Mae'r ymgynghoriad yn archwilio ystod o opsiynau i newid aelodaeth bresennol fel bod Aelodau'n atebol i'w hetholwyr a Llywodraeth Cymru, yn gwella craffu ar benderfyniadau ATAau ac yn cyflwyno mecanweithiau ariannu newydd a allai gynnal ehangu eu rôl i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Nodwyd y cynigion i ddiwygio'r strwythur a'r aelodaeth drwy leihau cynrychiolaeth y Cynghorwyr a enwebir gan dri aelod, gyda chydbwysedd gwleidyddol i un Aelod Cabinet a bod hyn wedi'i wrthod yn gryf yn yr ymateb. Mae'r ymateb yn cydnabod rôl esblygu'r gwasanaethau wrth addysgu cymunedau a busnesau mewn diogelwch tân ac yn cefnogi esblygiad parhaus y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru weithio i gael gwared ar ffactorau sy'n gohirio hyn, yn enwedig y gallu i weinyddu cymorth bywyd sylfaenol pan fyddant yn y fan a'r lle.

O ran diffyg atebolrwydd a roddir yn ôl i ddemocratiaeth leol, nodwyd bod ymateb CBSC yn anghytuno â hyn gan fod aelodau etholedig Caerffili sy'n eistedd ar yr ATA yno ar ffurf sy'n cynrychioli'r awdurdod cyfan. O ran busnes a pherfformiad, mae'r ymateb yn cefnogi'r adrodd i graffu neu'r Cyngor ar osod amcanion, cynllunio, perfformiad ac atebolrwydd yr ATA. Cefnogir y ffiniau presennol ond ni chefnogwyd y cynnig i drosglwyddo'r gwasanaeth i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol, mae'r ymateb a gyflwynir yn cefnogi'r opsiwn praesept ac mae adrodd yn ymwneud â pherfformiad yn awgrymu y dylai'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub ffurfio fframwaith gyda'r gofynion i osod Amcanion Lles. Mae'r ymateb hefyd yn cefnogi y dylai fod yn rôl yr ATA i ddarparu'r gwasanaeth, nid y Prif Swyddog Tân, yn yr un modd ag y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau awdurdodau lleol.

Ar ôl ystyried yr ymateb, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd yn ddarostyngedig i welliant i'r ymateb i Gwestiwn 13 i ddarllen nad ydym yn cefnogi'r pŵer cyflafareddu wrth gefn i Weinidogion Cymru, a thrwy'r system bleidleisio electronig ac wrth nodi bod yna 3 ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Lywodraeth Cymru yn amodol ar y gwelliant i Gwestiwn 13 a nodwyd uchod.

## 9. CLILC - GOBLYGIADAU BREXIT

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyflwyniad gan Dr T. Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn rhoi trosolwg o oblygiadau Brexit i awdurdodau lleol.

Manylwyd ar y llinell amser, dyddiadau pwysig a sefyllfa gyfredol y broses Brexit yn fanwl ac eglurwyd y goblygiadau ar gyfer yr hyn a allai ddigwydd nesaf. Dywedwyd wrth yr aelodau bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch y camau nesaf gan ystyried mai'r dyddiad cau ar gyfer ymadael y DU yw 29 Mawrth 2019. Nodwyd na ellid diystyru ymadawiad 'heb gytundeb', gyda bargen Norwy+ neu Canada+ yn parhau i fod yn bosibilrwydd ond byddai angen ail-negodi unrhyw gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Erys hefyd y posibilrwydd o ail refferendwm, pleidlais bellach o ddim hyder neu gais am estyniad i Erthygl 50.

O ran y risgiau a'r camau gweithredu corfforaethol ar gyfer awdurdodau lleol, dywedwyd wrth yr aelodau bod CLlLC a CLlL yn gweithio gyda Chynghorau i asesu'r goblygiadau i risg. Ar gyfer senario 'heb gytundeb', byddai'r goblygiadau uniongyrchol yn canolbwyntio ar y gweithlu, cyflenwadau, economi lleol, costau a pharatoad. Camau gweithredu blaenoriaethol i Gynghorau fel sefydliadau fyddai symud pobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, creu cynlluniau, cynnal archwiliad o'r gweithlu, mapio incwm cyfredol a deall amlygiad ariannol. Amlinellwyd camau gweithredu blaenoriaethol i Gynghorau fel darparwyr gwasanaethau gan fod yn rhaid iddynt nodi'r gwasanaethau a'r cyflenwyr mwyaf arwyddocaol, deall yr effaith ar wasanaethau craidd, datblygu cynlluniau wrth gefn a deall risgiau i gyflenwyr contract. Yn olaf i'r Cyngor yn eu rôl fel arweinwyr cymunedol, rhaid iddynt ddeall gwneuthuriad eu cymunedau ac effaith galwadau ar y gwasanaeth, ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cadw'n hysbys, adolygu parhad busnes a chynlluniau argyfwng a deall ble mae'r pwyntiau bregus yn yr economi leol yn debygol o fod.

Sicrhawyd yr Aelodau bod llawer o'r gwaith hwn eisoes ar y gweill gydag awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor ar Brexit, asesu risg a chynllunio cyllidebol, cynnal sesiynau briffio Aelodau a lobïo am adnoddau ychwanegol.

Amlinellwyd goblygiadau cyllid ac er bod rhai ffrydiau ariannu wedi'u gwarantu i 2020, prin iawn yw'r sicrwydd o unrhyw fath y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Amlinellwyd pryderon am ardaloedd gwledig a ffermio yn arbennig o ran y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Wrth gloi, cadarnhaodd Dr Peppin y byddai CLlLC yn parhau i gefnogi'r awdurdodau lleol trwy lobïo ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i bwyllgorau CCC a gweithio ar y cyd â'r CLlL eraill. Er bod ansicrwydd mawr yn parhau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn barod, gobeithio am y gorau ond bod â chynllun wrth gefn rhag y gwaethaf. Yn hyn o beth, dywedodd Dr Peppin wrth y Cyngor fod CLlLC wedi sefydlu gweithgor ar y cyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (Panel Ymgynghorol ar gyfer Parodrwydd Llywodraeth Leol yr UE) a threfnwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer 24 Ionawr. Dywedodd hefyd y byddai Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cymunedau) y Cyngor yn eistedd ar y panel i gynrychioli Cyfarwyddwyr Amgylchedd Cymru.

Diolchodd y Maer i Dr Peppin am ei gyflwyniad ac am ei bresenoldeb yn y Cyngor.

## 10. BREXIT

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a ystyriwyd gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2019 a cheisiodd ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Brexit a'r goblygiadau posibl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC).

Cyfeiriwyd yr aelodau at argymhelliad 10.1.2 yr adroddiad a dywedwyd bod gwall teipio mewn perthynas â'r swm a ddyfynnwyd fel balans y cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu; dylai hyn ddarllen fel £20.08 miliwn yn hytrach na £20.8 miliwn fel a nodir ynddo.

Nodwyd, oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd, bod yr effaith bosibl i awdurdodau lleol yn y tymor byr a'r hirdymor yn anodd ei ragweld, fodd bynnag, roedd CBSC wedi sefydlu Gweithgor Brexit mewnol yn ddiweddar. Gan ganolbwyntio ar y Pecyn Cymorth Paratoi ar gyfer Brexit a gynhyrchwyd ar gyfer CLILC gan Grant Thornton, mae'r Grŵp yn gweithio i nodi camau gweithredu blaenoriaeth a thasgau allweddol.

Mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cabinet wedi cymeradwyo dau argymhelliad ychwanegol i ystyriaeth y Cyngor. Yn gyntaf, dylid cynnwys Arweinwyr y prif Grwpiau Gwrthbleidiol yn Aelodaeth y Gweithgor a bod unrhyw wariant brys yn cael ei adrodd yn ôl-weithredol i'r pwyllgor priodol.

Croesawodd yr Aelodau gynnwys Arweinwyr y Grŵp Gwrthbleidiol ac er bod pryder yn cael ei fynegi mewn perthynas â'r gronfa wrth gefn o £1 miliwn, roeddent yn cydnabod yr angen i gymryd camau cyflym er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau economaidd negyddol posibl. Cytunodd yr Aelodau fod angen paratoi a rhannwyd y gobaith na fyddai angen yr arian.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiad cwmpasu'r Swyddog a'r argymhellion ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2019 yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig, ac wrth nodi bod 1 yn erbyn hyn, cytunodd y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:-

(i) bod £1m yn cael ei neilltuo mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi fel cronfa hapddigwyddiad i gwrdd ag unrhyw oblygiadau ariannol tymor byr i ganolig sy'n deillio o broses Brexit (a ariennir o'r cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu o £20.08 miliwn a nodwyd yn y 'Diweddariad ar Gronfeydd Wrth Gefn' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 15 Ionawr 2019);
(ii) cymeradwyo argymhelliad i'r Cyngor y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro i gymeradwyo gwariant ar y cyd o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yn ôl yr angen;
(iii) gwahodd y ddau Arweinydd o'r Grwpiau Gwrthbleidiol i ymuno â'r Gweithgor Brexit mewnol a sefydlwyd yn ddiweddar;
(iv) bydd unrhyw wariant brys a awdurdodir o dan bwerau dirprwyedig yn cael ei adrodd yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor priodol.

## 11. GORFODAETH PARCIO SIFIL - ADRODDIAD CYNNYDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio diweddaru'r Cyngor ar y cynnydd wrth fynd ar drywydd Pwerau Gorfodi Parcio Sifil a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Aelodau'r Cabinet i sefyll ar Gyd-bwyllgor Cymru a Lloegr ar gyfer Gorfodi Sifil o Reoliadau Parcio a Thraffig y tu allan i Lundain.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 4.1 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar yr amserlen weithredu ac amlinellwyd y camau allweddol a'r problemau posibl. Hysbyswyd yr aelodau bod cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer y Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil a bod targed ar y trywydd iawn i 'Fynd yn Fyw' ar gyfer 8 Ebrill 2019.

Mynegodd yr Aelodau bryder na fyddai'r 8 Swyddog Gorfodi Parcio Sifil yn ddigonol i ddarparu'r sylw angenrheidiol, yn enwedig o amgylch ysgolion a chanol trefi, ond roeddent yn croesawu'r gostyngiad yn y tâl deiliad trwydded i £15.

Cadarnhaodd swyddogion fod cymariaethau wedi'u gwneud gydag Awdurdodau Lleol eraill sydd eisoes yn gweithredu gorfodaeth parcio sifil ac roeddent wedi cychwyn y broses gyda nifer tebyg o Swyddogion Gorfodi. Derbyniwyd na ellid cyflawni cwmpas 100%. Fodd bynnag, gyda chymorth cudd-wybodaeth dan arweiniad yr Aelodau, gellid nodi a chanolbwyntio ar feysydd allweddol er mwyn atal a gorfodi parcio anwahaniaethol.

Trafodwyd oriau gweithredu gorfodaeth a chadarnhawyd y byddai'r rhain yn cael eu gweithio ar system shifft, 7 diwrnod yr wythnos, rhwng 7.00am a 10.00pm, gan gynnwys Gwyliau Banc. Esboniwyd yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y gwahanol orchmynion rheoleiddio traffig sydd i'w rhoi mewn lle, a dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai materion o ddod i arfer yn siŵr o fodoli ar y cychwyn ond rhoddodd sicrwydd y byddai gorfodaeth yn cael ei rheoli'n briodol.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r system 'cyfeillio' sy'n ofynnol ar gyfer Swyddog Diogelwch Cymunedol ac a fyddai hyn yr un fath ar gyfer Swyddogion Gorfodi. Cadarnhawyd nad oedd hyn yn wir am Swyddogion Parcio Sifil, a fyddai â chyfarpar llawn a gwasgod camera corff.

Gofynnwyd am eglurhad o ran y goblygiadau ariannol ac a oedd hyn yn cymryd i ystyriaeth costau ôl-swyddfa RhCT, pe bai unrhyw oblygiadau yn deillio o’r talu’n ôl o Gronfa Fenter Sirhywi a phrosiect Menter Cyllid Preifat (MCP), ac a fyddai'r defnydd o gronfa wrth gefn y Gyfadran Cymunedau yn arwain at lai o wasanaethau. Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai unrhyw effaith ar wasanaethau na thalu'r prosiect MCP. Roedd y ffigyrau a ddyfynnwyd yn adlewyrchu costau'r broses gyfan a byddai costau refeniw yn cael eu talu o’r incwm a gynhyrchir.

Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro yn cydnabod y pryderon a godwyd gan yr Aelodau mewn perthynas â niferoedd staffio, ond fel maes gwasanaeth cwbl newydd ystyriwyd bod y cynigion yn ddarbodus, gan ddechrau'n fach gyda'r potensial i ymestyn mewn ymateb i'r galw. Byddai'r Aelodau'n rhan hanfodol o'r broses nid yn unig wrth gasglu gwybodaeth ond hefyd wrth reoli disgwyliadau'r trigolion wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cafodd ei gytuno a'i eilio bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig, a thrwy nodi bod 2 yn erbyn, cytunwyd arnynt ?gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:-

(i) i nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) y dylai'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Economi, Isadeiledd, Cynaladwyedd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd fel eilydd, fod yn Gynrychiolwyr a benodir i eistedd ar Gyd-bwyllgor Lloegr a Chymru ar gyfer Gorfodaeth Parcio Sifil a Rheoleiddio Traffig y tu allan i Lundain, sy'n goruchwylio'r gwasanaeth dyfarnu a elwir yn Dribiwnlys Cosbau Traffig (TCT);

(iii) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro i newid y cynllun dirprwyo o dan Ran 3 o gyfansoddiad y Cyngor.

## 12. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2019/20

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

Hysbyswyd yr Aelodau bod angen mân gywiriad i'r argymhelliad a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion gan y dylai'r flwyddyn ariannol a nodir ynddo fod yn 2019/20.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio yn amodol ar y cywiriad uchod y dylid cymeradwyo'r argymhelliad a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, a thrwy gyfrwng y system bleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD bod y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor cyfredol yn parhau am y flwyddyn ariannol 2019/20 ynghyd â'r disgresiynau lleol a gytunwyd yn flaenorol.

Terfynwyd y cyfarfod am 19:20

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 5 Mawrth 2019 ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

__________________________

MAER